# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar leoedd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn ymgorffori ymagwedd holistaidd drylwyr at gydnerthedd cymunedol ac unigol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio |
| **Cadeirydd** | **Rachel Jarvis**, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyng. Alun Williams, Lyndon Griffiths, **Bethan Lloyd Davies,** Rhodri Llwyd, Dr Sarah Groves-Phillips, Cyng. Keith Henson, Beti Gordon, Alison Heal, Bethan Howell, Nicola Davies, Llinos Williams, Rachel Auckland Partnerships Team: **Timothy Bray**, Sara Dafydd**, Lynne Walters, Anwen Thomas**, **Teleri Elias** | Prifysgol Aberystwyth | Rhodri Llwyd Morgan, Dewi Day |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | Yvette Eley, Peter Frost |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Paul Williams, Terri Shaw, Owen Harris, Sharon Hughes, **Rhian Rees** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Mark Stevens |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru | Rhys Horan, Huw Lewis, Brian Drysdale, Tony Lawson | Cynllun Ynni Canolbarth Cymru | Thomas Yeo, **Dr Gemma Delafield**, |
| Menter a Busnes | **Ann Owen** | Coleg Sir Gar/Ceredigion | Vanessa Cashmore, Louis Dare |
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | | CMGC | Chesca Ross |
| EcoDyfi | Andy Rowland | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Roxanne Treacy**, Vikki Butler |
| Cyngor ar Bopeth | Juliet Morris | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Kelly Williams, Daniel Priddy |
| Partneriaeth Natur Lleol | Rachel Auckland | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 26/10/23**

**<u>12.1 Croeso, Cyflwyniadau, ac Ymddiheuriadau</u>**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol:
Chesca Ross – CAVO
Y Cynghorydd Keith Henson – CSC
Rhodri Llwyd- CSC
Y Cynghorydd Alun Williams – CSC
Alison Heal – CSC
Caitlin Theodorou – CSC
Rachel Auckland - CSC

DRAFT

Roedd Caitlin Theodorou (CT) wedi rhoi gwybod i'r grŵp nad oedd swyddogion y tîm ymchwil yn gallu mynychu pob cyfarfod ar hyn o bryd oherwydd eu bod yn brysur iawn yn cwrdd â dyddiad cau statudol. Fodd bynnag, cafwyd cadarnhad eu bod yn hapus i gefnogi unrhyw gais penodol a fyddai'n cael ei wneud am ddata neu waith asesu. Ar y sail hon, nododd CT ei bod yn hapus i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol neu i ddosbarthu unrhyw adnoddau os gwneir cais am hyn.

Croesawodd Cadeirydd newydd y grŵp peilot, Gillian Perry, bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol, yn y cnawd ac yn rhithiol,  i gyflwyno eu hunain.

**12.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18.07.23 yn gywir a dywedwyd y byddai'r camau gweithredu yn cael eu trafod ar yr agenda heddiw.

**CAM GWEITHREDU –** Byddai SD yn dosbarthu fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Cyflawni drafft yn dilyn cyflwyniad TB.

**Cam Gweithredu –** Byddai RJ yn diweddaru'r daenlen fapio gan gynnwys colofnau lle gallai'r aelodau adrodd am y rhwystrau a oedd yn effeithio ar y gwaith cyflawni, a byddai'r daenlen ddiweddaraf hon yn cael ei dosbarthu unwaith eto ymhlith aelodau'r grŵp. Byddai aelodau'r grŵp yn llanw'r daenlen hyd eithaf eu gallu ac yn ei dychwelyd i fewnflwch y Partneriaethau.

Diolchodd LW i'r holl bartneriaid a fu'n diweddaru'r daenlen fapio a nododd ei bod yn ddogfen fyw a oedd wedi'i dosbarthu ddwywaith yn barod. Cadarnhaodd LW y byddai'r daenlen fapio yn cael ei dosbarthu eto yn dilyn y cyfarfod heddiw fel y gallai'r holl bartneriaid barhau i ddiweddaru'r camau gweithredu.

**Cam Gweithredu –** Byddai sleidiau cyflwyniad Rachel Auckland yn cael eu dosbarthu.

Deallwyd y byddai Rachel Auckland yn mynychu'r cyfarfod heddiw i ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhwydwaith natur lleol. Roedd hwn yn ddarn allweddol o waith ar draws y Sir a byddai cais yn cael ei wneud yn awr am ddiweddariad byr a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.



DRAFT

**Cam Gweithredu –** Byddai trefniadau yn cael eu gwneud i sicrhau y gallai Rhys Horan neu gynrychiolydd arall o'r Gwasanaeth Ynni fynychu'r cyfarfod nesaf.

Roedd Tony Lawson o Lywodraeth Cymru wedi ymuno â'r cyfarfod heddiw a chroesawodd y Cadeirydd ef i'w gyfarfod cyntaf o'r grŵp hwn.

**Cam Gweithredu - E-bost** Byddai e-bost yn cael ei anfon at aelodau'r grŵp prosiect ynglŷn â'r weithdrefn Gyfieithu (trothwy o 10%).

Roedd y camau hyn wedi'u cwblhau ar gyfer pob grŵp peilot.

**Cam Gweithredu –** Byddai gwybodaeth am grant draenio cynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei dosbarthu.

Dosbarthwyd y wybodaeth hon yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

**12.3 Cyflwyniad i'r Siarter Teithio Iach – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Rhian Rees, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Croesawodd y Cadeirydd, Rhian Rees (RhR) i'r cyfarfod ac wedi hynny cyflwynodd ei hun i'r grŵp gan nodi ei bod yn gweithio i Hywel Dda fel Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd. Bu iddi roi cyflwyniad i'r grŵp am y Siarter Teithio Iach. Dr Tom Porter yng Nghaerdydd a'r Fro yn 2018 oedd wedi dechrau'r siarter ac roedd yn seiliedig ar waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Roedd y strategaeth bellach wedi esblygu ac roedd Llywodraeth Cymru bellach yn dymuno gweld y Siarter yn cael ei chyflwyno'n rhanbarthol. Gan fod y cyfarfod heddiw yn canolbwyntio ar newid hinsawdd, iechyd ac anghydraddoldebau a llygredd aer, roedd y siarter yn hynod berthnasol gan ei bod yn cynnig ffordd o fynd i'r afael â'r cynnydd mewn gordewdra. Hefyd, roedd yn pwysleisio pa mor bwysig yw mannau gwyrdd.

Yn ystod y cyflwyniad am Siarter Teithio Iach y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, soniwyd am sefydlu grŵp strategaeth rhanbarthol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Powys, yr Awdurdodau Lleol a Phrifysgol Aberystwyth. Bu iddynt edrych ar ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 gan nodi bod nifer o newidiadau wedi'u cyflwyno ac nad oedd pob un o'r rhain yn rhai ffafriol. Eglurwyd mai cyfres o ryw 14 i 16 o ymrwymiadau oedd y Siarter Teithio Iach y byddai'r partneriaid yn anelu at eu cyflawni yn ystod y 2-3 blynedd nesaf. Cyfeiriwyd hefyd at arolwg arall gan Hywel Dda, sef yr Arolwg

DRAFT

Teithio ar gyfer y Staff. Roedd yr arolwg hwn wedi cadarnhau bod talcen caled o'n blaen. Roedd hefyd yn cydnabod yn glir y byddai'r ardaloedd gwledig yn ei chael hi'n anoddach cyrraedd sero net o gymharu ag ardaloedd eraill.

Er mwyn lleihau allyriadau carbon, nodwyd bod angen canolbwyntio ar deithio llesol a gwneud gwell defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd angen i gyrff cyhoeddus ddarparu arweinyddiaeth a darparu esiampl i fusnesau preifat.

Cyfeiriwyd hefyd at nodweddion eraill y siarter. Byddai angen cyd-gynhyrchu atebion gyda'r rhanddeiliaid ac roedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bartneriaid allweddol wrth yrru hyn ymlaen.

Y nod oedd cwblhau'r broses o gyflwyno Siarteri Teithio Iach ledled Cymru.

Byddai Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe yn cymryd rhan mewn gweithdy cyn y Nadolig a byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhannu maes o law.

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyhoeddi map a oedd yn dangos lle'r oedd y llwybrau beicio mwy diogel wrth ymyl adeiladau a chyfleusterau'r Bwrdd Iechyd. Hefyd, roedd lleoliadau loceri a chawodydd ar gyfer staff wedi'u cynnwys ar y map ac roedd y rhain i'w gweld ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Nododd RhR fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu mwy o lwybrau bysiau. Ar ôl trafodaeth am y mater hwn, cytunwyd bod angen ystyried y cyd-destun gwledig ar bob lefel.

O ystyried y sefyllfa ledled Cymru, roedd Ceredigion ar flaen y gad o ran darparu mannau gwefru ar gyfer ceir trydan. Roedd hyn o ganlyniad i waith cadarnhaol ac roedd yna fannau gwefru hefyd ar gyfer beiciau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fodd bynnag, byddai modd gwella'r sefyllfa drwy sicrhau bod gan y mannau gwefru fwy o gapasiti ar gyfer cerbydau mwy o faint. Yn y pen draw, byddai modd datblygu'r defnydd o gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen a nodwyd bod bws hydrogen newydd gael ei lansio yn Sir Benfro. Gallai gwybodaeth am eu profiad fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu pethau yng Ngheredigion yn y dyfodol. Os oedd gan y partneriaid eraill ddiddordeb mewn derbyn rhagor o fanylion, roedd croeso iddynt gysylltu â RhR.

DRAFT

Yn lleol, roedd y Siarter Teithio Iach wedi sefydlu grŵp partneriaeth rhanbarthol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol ar draws yr ardal. Hyd yn hyn roedd dau gyfarfod wedi'u cynnal ac roedd disgwyl i'r un nesaf gael ei gynnal ar yr 20fed o Dachwedd. Yn y cyfarfod hwn byddai'r partneriaid yn edrych ar yr ymrwymiadau yn y siarter teithio drafft.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd hefyd y byddent yn cynnal gweithdy cyn y Nadolig ar sut i ddod yn gyflogwr sy'n hyrwyddo beicio a byddai gweithdy arall yn cael ei gynnal yn dilyn hynny a fyddai'n canolbwyntio ar newid ymddygiad a diwylliant.

Roedd angen cael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am yr heriau a'r cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig ac roedd angen casglu'r wybodaeth hon fel y gellid ei chyflwyno fel adborth i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eisoes wedi cynnal arolwg teithio ymhlith y staff ond os byddai'r partneriaid eraill yn dymuno cyfrannu unrhyw wybodaeth berthnasol, byddai hyn yn cael ei ystyried fel gwybodaeth ddefnyddiol wrth lunio camau gweithredu yn y dyfodol. Byddai grwpiau ffocws yn cael eu cynnal yn fuan a'r gobaith oedd ystyried canlyniadau arolygon pellach er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n bodoli mewn ardaloedd gwledig.

**Cam Gweithredu-** Byddai Rhian Rees yn rhannu dyddiadau'r gweithdy Beicio a'r gweithdy Ymddygiad a Diwylliant gyda'r fforwm hwn.

**12.4 Y diweddaraf am Brosiect Rhwydwaith Bwyd Ceredigion, Ann Owen, Menter a Busnes**

Roedd Ann Owen (AO), Menter a Busnes wedi dechrau yn ei swydd ers mis. Ar hyn o bryd, roedd camau cychwynnol y prosiect rhwydwaith bwyd yn cael eu rhoi ar waith.
Roedd fframwaith gweithredu'r rhwydweithiau bwyd yn nodi 6 mater allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni newid sylfaenol yn y system fwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. **Trefniadau Llywodraethu a Strategaeth ar gyfer Bwyd:** Mabwysiadu dull strategol a chydweithredol o ran sicrhau trefniadau llywodraethu a chamau gweithredu da o ran bwyd.
2. **Mudiad Bwyd Da:** Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth fwyd weithgar a mudiad bwyd da lleol.
3. **Bwyd Iach i Bawb**: Mynd i'r afael â thlodi bwyd, afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet a mynediad at fwyd iach fforddiadwy.
4. **Economi Bwyd Cynaliadwy:** Creu economi fwyd gynaliadwy, fywiog, ffyniannus ac amrywiol.
5. **Arlwyo a Chaffael:** Trawsnewid y meysydd arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi lleol.
6. **Bwyd i'r Blaned:** Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi terfyn ar wastraff bwyd.

DRAFT

Nododd AO eu bod wedi sicrhau cyllid ar gyfer cydweithio, fel y gellid gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill fel ysgolion, gerddi cymunedol, byrddau iechyd a banciau bwyd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyllid hwn, roedd ganddynt 3 digwyddiad a fyddai'n cael eu cynnal yn Aberystwyth ar 7 Tachwedd, yn Llanbedr Pont Steffan ar 14 Tachwedd ac yn Aberteifi ar 15 Tachwedd. Byddent hefyd yn cynnal digwyddiadau ar-lein.

**Cam Gweithredu** – Byddai AO yn anfon manylion y 3 digwyddiad am gyllid at dîm y Bartneriaeth fel y gellid dosbarthu'r wybodaeth i'r aelodau.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch Castell Howell fel Hwb ynghyd â chost bwyd yn gyffredinol. Roedd Castell Howell yn cefnogi'r Prosiect Courgette a oedd yn llwyddiannus iawn. Ymhlith y partneriaid oedd ysgolion lleol. Roedd addysg yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn ac roedd gan y busnesau hyn wybodaeth werthfawr y byddai modd iddynt ei rhannu â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd AO fod angen mwy o gefnogaeth ar ffermwyr fel y gallent ymwneud yn gadarnhaol â datblygiadau o fewn y diwydiant, o gofio bod oedran ffermwyr ar gyfartaledd yn parhau i gynyddu. Roedd angen i ffermwyr fod yn rhan o'r grwpiau hyn, ac roedd hwn yn faes yr oedd angen gweithio arno. Cyfeiriwyd at grwpiau yn y byd amaeth gan gynnwys y Clybiau Ffermwyr Ifanc.

**Cam Gweithredu**- Yn y cyfarfod nesaf, byddai Ann Owen yn rhoi gwybod i'r grŵp am hanes ei chyfarfod â Chastell Howell.

**<u>12.5 Eitem Sefydlog:</u> Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 - Adborth cychwynnol am Weithdai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**
**Tim Bray *(Cyngor Sir Ceredigion)***

Bu'r gweithdai yn ystyried y Cynllun Llesiant. Roedd pob un o'r 4 amcan wedi'u rhannu'n dasgau. Penderfynwyd cynnal 4 gweithdy gan ganolbwyntio ar bob piler, gan sicrhau bod tlodi yn thema drawsbynciol.
Roedd tri gweithdy eisoes wedi'u cynnal ac roedd tyrfa dda o tua 20 o bobl ym mhob un. Cafodd y gweithdy cyntaf ar y Gymraeg a Diwylliant ei gadeirio gan Dr Rhodri Llwyd Morgan a chafodd yr ail weithdy ar Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd i Leihau Anghydraddoldebau Iechyd ei gadeirio gan Dr Phil Kloer. Cadeiriwyd y trydydd gweithdy ar ddatgarboneiddio (Amcan 3) gan Gillian Perry lle canolbwyntiwyd ar sut y gallai'r partneriaid gydweithio i fynd i'r afael â hyn. Byddai'r gweithdy olaf yn y gyfres ddydd Llun 6 Tachwedd yn canolbwyntio ar gydweithio i ddatblygu Economi Gynaliadwy (Amcan 1) a byddai'n cael ei gadeirio gan Gyngor Sir Ceredigion. Roedd pawb a ddaeth i'r gweithdai yn defnyddio'r llwyfan rhyngweithiol ar-lein Menti lle'r oedd modd cael adborth a dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r camau. Ar ôl i'r holl weithdai gael eu cynnal, byddai'r holl adborth yn cael

ei ystyried a byddai a fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun cyflawni drafft yn cael eu paratoi ar gyfer cyfarfod y Bwrdd a fyddai'n cael ei gynnal ddydd Llun 4 Rhagfyr 2023. O ran rhoi'r Cynllun Llesiant Lleol ar waith, byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried rôl y pwyllgorau llywio a grwpiau eraill o ran mynd ati i gyflawni'r camau gweithredu a sut y gall y Bwrdd sicrhau bod y mecanweithiau adrodd priodol ar waith i gasglu'r holl wybodaeth.

Nododd Timothy Bray (TB) eu bod wrthi'n trafod pob cynllun peilot ac o ran y grŵp hwn bod sôn bod yna bosibilrwydd y byddai'r cyfeiriad at Aberystwyth yn enw'r Grŵp Datgarboneiddio yn cael ei ddileu gan fod y pwnc hwn yn un a oedd yn berthnasol i'r holl grwpiau eraill, mewn ffordd debyg i dlodi.

**12.6 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ynni Ardal Leol (LEAP) a throsolwg o'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu.**
**Bethan Lloyd Davies, Rheolwr Rhaglen Lleihau Carbon, Ynni a Rheoli Asedau, CSC / Gemma Delafield, Swyddog Ynni Rhanbarthol.**

Bu i Bethan Lloyd Davies (BLD) gyflwyno Dr Gemma Delafield (GD) i'r grŵp sef swyddog ynni rhanbarthol cynllun Ynni Canolbarth Cymru.

Rhoddodd GD drosolwg a diweddariad ar y gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Ynni Ranbarthol a'r Cynllun Ynni Ardal Leol (LEAP). Rhoddodd GD drosolwg o'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau ynni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Roedd nifer o gysylltiadau rhwng y 3.

Gweledigaeth y strategaeth ranbarthol oedd sicrhau system ynni carbon sero-net a fyddai'n darparu buddion cymdeithasol ac economaidd, yn dileu tlodi tanwydd, yn cysylltu'r Canolbarth â gweddill y Deyrnas Unedig yn well, ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ehangach yn y Deyrnas Unedig. Roedd yna chwe phrif flaenoriaeth:

- Datgarboneiddio trafnidiaeth.
- Datgarboneiddio'r stoc dai.
- Buddsoddiad strategol yn y grid
- Hybu'r defnydd i ynni adnewyddadwy trwy drefniadau cynhyrchu a storio newydd.
- Datblygu atebion arloesol.
- Defnyddio potensial amaethyddiaeth.

Esboniodd GD yr hyn yr oedd cynllun gweithredu rhanbarthol y strategaeth ynni yn ei gwmpasu. Roeddent wedi darganfod bod angen data arnynt i fonitro'r cynnydd a wneid. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn bwysig iawn ac ar yr adeg hon, nodwyd y gallai fod yna rôl gydweithredol i'r rhwydwaith Cyd-gynhyrchu a oedd yno i gefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd y gwaith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sicrhau bod y canlynol yn cael eu cynnwys: trefniadau cynaliadwy o ran caffael cyhoeddus, pennu'r bwlch sgiliau, ystyried cysylltiadau â phrosiectau ehangach yn y cynllun strategol ac ymchwilio i ystyriaethau ynghylch cyflenwi ynni a'r galw sy'n bodoli. Byddent yn edrych ar sut y gallai'r awdurdod lleol gyfrannu at brosiectau gan ystyried partneriaethau lleol, partneriaethau a rennir, y systemau ynni lleol a'r cynllun ynni. Y bwriad oedd dod â gwahanol fusnesau ynghyd i rannu asedau ac i ddarganfod sut oedd modd mynd i'r afael â rhai o'r materion a oedd yn ymwneud â'r grid a sut yr oedd ynni'n cael ei ddefnyddio'n lleol.

Yn dilyn y trafodaethau blaenorol a gafwyd ynglŷn â'r gymuned amaethyddol, cyfeiriodd GD hefyd at y ffaith bod angen iddynt drafod sut y gallai amaethyddiaeth gyrraedd sero net. Roeddent wedi dechrau'r broses o ymgysylltu â busnesau a'r mis diwethaf dosbarthwyd yr arolwg sero net ymhlith busnesau, ond roedd angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach dros y cyfnod nesaf.

**Cam Gweithredu**: Byddai Gemma Delafield yn rhannu'r arolwg sero net ar gyfer busnesau gyda'r partneriaid.
**Cam Gweithredu**: Byddai'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn ystyried cynnig cefnogaeth o ran ymgysylltu.

Roedd y Cynllun Ynni Ardal Leol, dan arweiniad Llywodraeth Leol yn ystyried y system ynni gyfan mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Roedd yn nodi'r cynllun integredig mwyaf cost-effeithiol ar gyfer yr ardal leol fel y gellid gwneud cyfraniad lleol at dargedau sero net cenedlaethol gan sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â'r amserlen a bennwyd. Roedd gwaith paratoi wedi'i wneud i nodi'r rhanddeiliaid allweddol a mapio'r ddarpariaeth bresennol mewn ardaloedd lleol. Byddai'r gwaith yn awr yn symud ymlaen i gamau modelu'r cynllun. Roedd sawl gweithdy wedi'u trefnu i ystyried y gwaith modelu fel y gellid derbyn adborth. Roeddent yn gobeithio y byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo erbyn mis Mawrth 2024. Ar ôl hynny, byddent yn cyflwyno'r cynllun gerbron y Cabinet fel y gall yr Aelodau ei ystyried. Roeddent yn gobeithio y byddai'r cynllun yn darparu'r cyfoeth o ddata a fyddai ei angen i wneud penderfyniadau hirdymor ar flaenoriaethau.

DRAFT

Roedd GD yn rhan o drafodaethau cenedlaethol ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd nesaf. Y gobaith oedd y byddai'r trafodaethau hyn yn amlygu maint yr her ac y byddai  negeseuon ynghylch yr heriau unigryw yng nghanolbarth Cymru yn cael eu clywed.

**Cam Gweithredu-** Byddai Gemma Delafield yn rhannu gwybodaeth am weithdai'r cynllun ynni ardal leol ynghyd â'r dyddiadau.

**Cam Gweithredu** – Byddai Gemma Delafield yn rhannu'r cyflwyniad am y Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol gyda'r fforwm.

Gan fod y grŵp hwn wedi bod yn trafod y materion hyn o'r blaen, a bod y sgyrsiau hyn yn parhau, dywedodd LW mai'r gobaith oedd y byddai modd ystyried sut y gallai'r hyn a oedd yn cael ei wneud yn lleol gyd-fynd â'r darlun rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yn anffodus nad oedd Dewi Day, Prifysgol Aberystwyth yn bresennol yn y cyfarfod heddiw gan ei fod wedi codi'r materion hyn o'r blaen pan oedd yn Gadeirydd ar y grŵp peilot hwn. Byddai wedi bod yn gyfle gwych iddo glywed y cyflwyniad a gweld sut y gall camau peilot gyfrannu at gamau gweithredu ehangach. Nododd LW bwysigrwydd y cysylltiadau hyn ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Gweler isod gopi o'r cyflwyniad.

LAEP Ceredigion PSB Climate Group.pptx

**<u>12.7 Diweddariadau gan y partneriaid – Pob partner</u>**

Dywedodd LW wrth y grŵp y byddai'r daenlen fapio yn cael ei dosbarthu eto yn dilyn y cyfarfod hwn er mwyn rhoi cyfle i bawb roi adborth.

Nododd Gillian Perry (GP) y dylai'r grŵp hwn edrych ar ei enw yn y dyfodol i adlewyrchu'r cyfrifoldeb a oedd ganddo ledled y Sir a'i flaenoriaethau.

DRAFT

Soniodd GP am bwysigrwydd ymgysylltu â'r diwydiant amaeth ac roedd yn dymuno gwahodd cynrychiolydd o'r sector hwn i fod yn aelod rheolaidd o'r grŵp. Cyfeiriodd GP hefyd at bwysigrwydd y diwydiant coed a gofynnodd a fyddai modd ystyried cynrychiolaeth o'r sector hwn hefyd.

**Cam Gweithredu** – Byddai unigolyn sydd â chefndir amaeth yn cael ei wahodd i fod yn rhan o'r grŵp.

**Cam Gweithredu** – Byddai rhywun o'r diwydiant coed yn cael ei wahodd

**12.8 Eitem sefydlog: A oes angen i ni gysylltu â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ar unrhyw un o'r materion a godwyd?**

Dywedodd Roxanne Treacy (RT) wrth y grŵp eu bod bob amser yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac Is-grwpiau'r Bwrdd o ran unrhyw waith ymgysylltu, cyfranogi neu gydweithio. Nododd RT y dylai unrhyw un a oedd eisiau unrhyw gefnogaeth gysylltu â nhw'n uniongyrchol ar ôl y cyfarfod hwn.

Dros y misoedd nesaf, byddent yn trefnu rhaglen o hyfforddiant sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchu. Byddai'r hyfforddiant hwn yn rhad ac am ddim ac roedd croeso i aelodau'r grŵp fod yn bresennol.

**Unrhyw fater arall: Unrhyw gymorth y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn amdano.**

Rhannwyd y wybodaeth ganlynol:

Mae Dolen Teifi yn darparu cludiant cymunedol ac mae ganddo glybiau ceir trydan yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin. Hefyd, mae Cymuned Cymru drwy TrydanNi yn datblygu clybiau ceir yng Ngheredigion.

Cludiant Cymunedol Dolen Teifi - Dolen Teifi – Trafnidiaeth i Bawb

https://chargeplacewales.org/ #

DRAFT

| |
|---|
| Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu hamser ac am gyfrannu at y trafodaethau. Daeth â’r cyfarfod i ben. |
| **12.9 Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf: Unrhyw gymorth y mae’r BGC wedi gofyn amdano.**<br>**I’w gyhoeddi  -22/1/24 hybrid, 15/4/24, 8/7/24 a 14/10/24** |

DRAFT